# COVID-19 Update: 21st April

In today's COVID-19 update from Cardiff Council: nearly £50 million of grant aid delivered to local businesses in Cardiff; new 'Rescue Hotel' charity established to support Cardiff Dogs Home; and in numbers, Cardiff Council responding to the COVID-19 crisis.

## Nearly £50 million of grant aid delivered to local businesses in Cardiff

Nearly £50m has now been distributed to Cardiff businesses in grant aid by Cardiff Council as part of the on-going COVID-19 rescue package.

Since the £1.4bn financial rescue package was announced by Welsh Government, officers from the Economic Development department have contacted 7,000 businesses to give information on the financial aid, as well as assist them with any enquiries.

3,668 businesses have now received financial support through these schemes and the council is continuing to progress the remaining applications as quickly as possible.

Cardiff Council's Cabinet Member for Finance, Modernisation and Performance, Cllr Chris Weaver, said: "Firstly I would like thank our staff in the finance department for their continual efforts in releasing these vital funds to businesses that qualify for the schemes. We've had some great feedback from business on the way we are managing the scheme, but I want to reassure any business that has applied for these schemes and hasn't yet heard back, that we are progressing applications as quickly as possible.

"Straightforward applications, which do not require further information or clarification are being processed and paid in two to three days. However, there are other claims which we may have queries on which will take much longer. It's vitally important the system isn't abused, so necessary checks have to be made to ensure any fraudulent claims are captured.

"Last week more than 300 of these queries were resolved, but they often aren't straightforward. Right now we are working our way through a number of applications with queries on them. If businesses are concerned and need to contact us they should email brates@cardiff.gov.uk "

The grant schemes available as part of the financial support package include:

- All retail, leisure and hospitality businesses with a rateable value of £500,000 or less will receive 100% non-domestic rates relief for 2020-21. This will be administered automatically through the Council's Rate Scheme so these businesses do not need to contact the Council
- All businesses, which are currently eligible for Small Business Rates relief, that is those with a rateable value up to £12,000, will receive a grant of

£10,000. If you believe you are an eligible business click here for the application form and follow the processes outlined

- Retail, leisure and hospitality businesses with a rateable value between £12,001 and £50,000 will receive a grant of £25,000. If you believe you are an eligible business click here for the application form and follow the processes outlined.
- A £400m ‘emergency pot' has also been announced, which allows some businesses that have been effected by the COVID-19 Crisis to access emergency funds based on the number of people that they employ. A grant of £10,000 is available for businesses that employ up to 9 people and grants up to £100,000 are available for companies that employ between 10 and 249 people. To see if you are eligible click here

Fred Wyatt, Managing Director for MeanWhile Creative which provides affordable office, desk and studio space in Cardiff has commended the council for their speed and professionalism during these very challenging times.

Mr Wyatt said: “These grants will be a lifeline to many and I am delighted to report that most of our tenants have already received their grants. The portal to apply, we believe, was one of the first that went live in the UK and some of our tenants received payment within 3 or 4 days of applying which was amazing.

“I think the speed to turn this around was a great display of action and integrity which really sends the right message to the often forgotten small business, especially in times like these.”

Leshia Hawkins, Chief Executive of Cricket Wales has also praised the Council for the speed in its response and said: “I would like to thank the council on behalf of all the clubs and for their speed and assistance with this financial aid. We have provided advice on the eligibility criteria for this financial assistance and will continue to assist the clubs with their applications.”

## New ‘Rescue Hotel’ charity established to support Cardiff Dogs Home

A new charity has been established to fundraise and provide additional support for the dogs being looked after at Cardiff Dogs Home and promote responsible dog ownership and humane behaviour towards dogs.

The newly registered charity, officially known as ‘Cardiff Dogs Home, The Rescue Hotel’ came into being after a group of volunteer dog walkers at Cardiff Dogs Home got together to organise some small fundraising events – the success of these events sparked the idea of forming a charity to help the city’s dogs.

Cabinet Member for Environment, Cllr Michael Michael, said: “The team at Cardiff Dogs Home do a fantastic job of looking after the dogs in their care, but the establishment of The Rescue Hotel, and the dedication and enthusiasm of the trustees, is really good news for Cardiff’s dogs and will help us continue to go far beyond what is legally required of the service.

“Sadly, many of the dogs we look after come to us in very poor health and have serious medical conditions that require what can be very expensive treatment. We do our best to make sure as many animals as possible receive the medical care they need, but the additional fundraising power that the Rescue Hotel bring will mean even more dogs getting even better care.”

The charity already has a number of successes under its belt – the initial fundraising events paid for a dog called Bruno, who has now been adopted into a fantastic forever home, to have an expensive operation on his ears.

Toria Acreman, one of the charity trustees, said: “It can be very difficult for the home to find new owners that will take on a dog knowing they need an expensive operation. We are all really passionate about the work carried out at the Dogs Home and this is our way of helping out.”

The charity has also recently helped the city’s homeless community deal with the impact of COVID-19. With most of the dogs normally housed at Cardiff Dogs Home being looked after by temporary foster carers during the outbreak, the home had a surplus of donated pet food. The Rescue Hotel team delivered more than £200 of dog food to the city’s Huggard Centre to help feed dogs whose owners are homeless.

Helping to find new owners for the dogs at the home is something the charity are already proving to be incredibly successful at. Alex Milakovic, who has volunteered at the Dogs Home for the last five years runs the charity’s social media accounts, which share pictures of all the dogs available for rehoming.

Alex said, “We have nearly 10,000 followers and are continuing to grow. The amount of positive support we have had from the public is amazing. So from someone not really keen on social media, I think we have done pretty well! I wanted to do something positive with my posts, and show people that social media can be used in a good way. This is where the concept of writing, as if the dog was talking came into place. This way you can really get across to the readers the character behind the dog, it shows them in a different light and people can really get to know the true character of the dog.

Mathew Acreman, one of the charity trustees, said:  “After months of hard work and planning by the whole team, we’re delighted to finally get charity status and are super excited to see what the future holds for The Rescue Hotel. With the support of the community, we’ll continue to work closely with the brilliant staff and amazing dogs at Cardiff Dogs Home.”

To make a donation to Cardiff Dogs Home, The Rescue Hotel, visit:
[www.therescuehotel.com/makeadonation](http://www.therescuehotel.com/makeadonation)

Follow them on social media @therescuehotelcdh (Instagram and Facebook) or @therescuehotel (Twitter)

Registered charity number: 1189079

## In numbers: Cardiff Council responding to the COVID-19 crisis

# Together for Cardiff

#WorkingForCardiff
#WorkingForYou

***In Numbers:*** *Cardiff Council Responding To The Covid-19 Crisis*

**12,000**
HOURS OF CHILDCARE A WEEK IN OUR SCHOOL HUBS

**700**
PEOPLE ON THE SHIELDING LIST CONTACTED A DAY

**1,100**
VOLUNTEERS REGISTERED ON TOGETHER FOR CARDIFF

**2,000**
FOOD PARCELS DELIVERED

**£85,000**
PLEDGED TO OUR CARDIFF FOOD APPEAL

**£48M**
DISTRIBUTED IN BUSINESS GRANTS

**4.6k CALLS**
TO THE COUNCIL ADVICE LINE (029 2087 1071)

**1,500,000**
WORDS TRANSLATED INTO WELSH

**700**
PROACTIVE COMMUNICATIONS SENT

**126K VISITS**
TO THE COVID-19 WEBPAGE

**4,000**
SOCIAL MEDIA REPLIES SENT

**8,000**
TONNES OF WASTE COLLECTED IN A WEEK

**31K HOURS**
OF DOMICILIARY CARE PROVIDED EACH WEEK

**3,500**
BUSINESS GRANT APPLICATIONS PROCESSED

*Figures collected on 16th April 2020*



UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

## Diweddariad COVID-19: 21st Ebrill

Yn y diweddariad ar COVID-19 a gafwyd heddiw gan Gyngor Caerdydd: bron i £50 miliwn o gymorth grant wedi ei ddosbarthu i fusnesau lleol yng Nghaerdydd; elusen 'Gwesty Achub' yn cael ei sefydlu i gefnogi Cartref Cŵn Caerdydd; a'r niferoedd, ymateb Cyngor Caerdydd i argyfwng COVID-19.

**Bron i £50 miliwn o gymorth grant wedi ei ddosbarthu i fusnesau lleol yng Nghaerdydd**

Mae bron i £50 miliwn o gymorth grant bellach wedi'i ddosbarthu gan Gyngor Caerdydd i fusnesau Caerdydd fel rhan o'r pecyn achub COVID-19 parhaus.

Ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r pecyn achub ariannol gwerth £1.4bn, mae swyddogion yr Adran Datblygu Economaidd wedi cysylltu â 7,000 o fusnesau i roi gwybodaeth iddynt am y cymorth ariannol, yn ogystal â'u helpu gydag unrhyw ymholiadau.

Bellach mae 3,668 o fusnesau wedi cael cymorth ariannol drwy'r cynlluniau hyn ac mae'r cyngor yn parhau i symud y ceisiadau sy'n weddill ymlaen cyn gynted ag y bo modd.

Dywedodd Aelod Cabinet Cyngor Caerdydd dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cyng Chris Weaver: "Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'n staff yn yr adran gyllid am eu hymdrechion parhaus wrth ryddhau'r arian hanfodol hwn i fusnesau sy'n gymwys ar gyfer y cynlluniau. Rydym wedi cael adborth gwych gan y byd busnes ynglŷn â'r ffordd rydym yn rheoli'r cynllun, ond rwyf eisiau tawelu meddwl unrhyw fusnes sydd wedi gwneud cais am y cynlluniau ac sydd heb glywed yn ôl eto, ein bod ni'n symud y ceisiadau ymlaen cyn gynted â phosibl.

"Mae ceisiadau syml, nad oes angen mwy o wybodaeth neu eglurhad arnynt, yn cael eu prosesu a'u talu o fewn dau i dri diwrnod. Fodd bynnag, ceir hawliadau eraill y mae'n bosibl bod gennym ymholiadau yn eu cylch a fydd yn cymryd llawer mwy o amser. Mae'n hanfodol bwysig na chaiff y system ei chamddefnyddio, felly mae'n rhaid gwneud gwiriadau angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw hawliadau twyllodrus eu dal.

"Y mis diwethaf datryswyd mwy na 300 o'r ymholiadau, ond yn aml nid ydynt yn syml. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ein ffordd trwy nifer o geisiadau y mae gennym ni ymholiadau yn eu cylch. Os yw busnesau'n pryderu ac angen cysylltu â ni, dylent e-bostio ardrethibusnes@caerdydd.gov.uk "

Mae'r cynlluniau grant sydd ar gael fel rhan o'r pecyn cymorth ariannol yn cynnwys:

- Bydd pob busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch â gwerth ardrethadwy o £500,000 neu lai yn derbyn rhyddhad o 100% ar ardrethi annomestig ar gyfer

2020-21. Caiff hyn ei weinyddu'n awtomatig trwy Gynllun Ardrethi'r Cyngor felly nid oes rhaid i'r busnesau hyn gysylltu â'r Cyngor

- Bydd pob busnes, sydd ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bychan, hynny yw'r rhai sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000, yn cael grant o £10,000. Os ydych yn credu eich bod chi'n fusnes cymwys cliciwch yma <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Business/Business-Rates/Covid-grant/Pages/default.aspx> i gael y ffurflen gais a dilynwch y prosesau a amlinellir
- Bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 yn cael grant o £25,000. Os ydych yn credu eich bod chi'n fusnes cymwys cliciwch yma i gael y ffurflen gais a dilynwch y prosesau a amlinellir.
- Cyhoeddwyd 'pot argyfwng' gwerth £400 miliwn hefyd, sy'n caniatáu i rai busnesau y mae Argyfwng COVID-19 yn effeithio arnynt gael mynediad at gronfeydd argyfwng yn seiliedig ar nifer y bobl y maent yn eu cyflogi. Mae grant o £10,000 ar gael i fusnesau sy'n cyflogi hyd at 9 o bobl ac mae grantiau hyd at £100,000 ar gael i gwmnïau sy'n cyflogi rhwng 10 a 249 o bobl. I weld a ydych yn gymwys, cliciwch yma

Mae Fred Wyatt, Rheolwr-Gyfarwyddwr MeanWhile Creative sy'n darparu mannau swyddfa, desgiau a stiwdio fforddiadwy yng Nghaerdydd wedi cymeradwyo'r Cyngor am eu cyflymder a'u proffesiynoldeb yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn.

Dywedodd Mr Wyatt: “Bydd y grantiau hyn yn achubiaeth i lawer ac rwyf wrth fy modd bod y rhan fwyaf o'n tenantiaid eisoes wedi derbyn eu grantiau. Y porthol ymgeisio, rydym yn credu, oedd un o'r rhai cyntaf a aeth yn fyw yn y DU a chafodd rhai o'n tenantiaid daliad o fewn 3 neu 4 diwrnod wedi ymgeisio, a oedd yn anhygoel.

“Rwy'n credu bod y cyflymder gweithredu hwn yn dangos llawer o waith ac unplygrwydd sydd wir yn anfon y neges gywir i'r busnesau bach a gaiff eu hanghofio yn aml, yn enwedig mewn adegau fel hyn.

Mae Leshia Hawkins, Prif Weithredwr Criced Cymru hefyd wedi canmol y Cyngor am gyflymder ei ymateb, a dywedodd: “Hoffwn ddiolch i'r cyngor ar ran yr holl glybiau ac am eu cyflymder a'u help gyda'r cymorth ariannol hwn. Rydym wedi darparu cyngor ar y meini prawf cymhwysedd i gael y cymorth ariannol hwn a byddwn yn parhau i helpu'r clybiau gyda'u ceisiadau.”

**Elusen ‘Gwesty Achub' yn cael ei sefydlu i gefnogi Cartref Cŵn Caerdydd**

Mae elusen newydd wedi cael ei sefydlu i godi arian a rhoi cymorth ychwanegol i'r cŵn sy'n derbyn gofal yng Nghartref Cŵn Caerdydd a hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar gŵn ac ymddygiad dyngarol tuag at gwn.

Daeth yr elusen sydd newydd ei chofrestru, a elwir yn swyddogol yn 'Cartref Cŵn Caerdydd, y Gwesty Achub' i fodolaeth ar ôl i grŵp o gerddwyr cŵn gwirfoddol yng Nghartref Cŵn Caerdydd ddod at ei gilydd i drefnu rhai digwyddiadau codi arian bach – sbardunodd llwyddiant y digwyddiadau hyn y syniad o ffurfio elusen i helpu cŵn y ddinas.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, y Cynghorydd Michael Michael: "Mae'r tîm yng Nghartref Cŵn Caerdydd yn gwneud gwaith gwych yn gofalu am y cŵn yn eu gofal, ond mae sefydlu'r Gwesty Achub, ac ymroddiad a brwdfrydedd yr Ymddiriedolwyr, yn newyddion da iawn i gŵn Caerdydd a bydd yn ein helpu i barhau i fynd ymhell y tu hwnt i'r hyn y mae'n ofynnol o dan y gyfraith ar y gwasanaeth.

"Yn anffodus, mae llawer o'r cŵn rydym yn gofalu amdanyn nhw yn dod atom ni mewn iechyd gwael iawn ac mae gennym gyflyrau meddygol difrifol sy'n gofyn am driniaeth sy'n gallu bod yn ddrud iawn. Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau bod cymaint o anifeiliaid â phosibl yn cael y gofal meddygol sydd ei angen arnynt, ond bydd y gallu i godi arian ychwanegol a ddaw yn sgîl y Gwesty Achub yn golygu bod hyd yn oed mwy o gŵn yn cael gofal gwell fyth. "

Mae'r elusen eisoes yn cael nifer o lwyddiannau – y digwyddiadau codi arian cychwynnol a dalwyd am gi o'r enw Bruno, sydd bellach wedi cael ei fabwysiadu gan ei gartref am oes gwych, i gael llawdriniaeth ddrud ar ei glustiau.

Dywedodd Toria Erman, un o ymddiriedolwyr yr elusen: "Gall fod yn anodd iawn i'r cartref ddod o hyd i berchenogion newydd a fydd yn derbyn ci gan wybod bod angen llawdriniaeth ddrud arno. Rydyn ni i gyd yn angerddol iawn am y gwaith sy'n cael ei wneud yn y Cartref Cŵn a dyma ein ffordd ni o helpu allan. "

Mae'r elusen hefyd yn ddiweddar wedi helpu i drigolion digartref y ddinas ddelio ag effaith COVID-19. Gan fod y rhan fwyaf o gŵn sydd fel arfer yng Nghartref Cŵn Caerdydd yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth dros dro yn ystod yr argyfwng, roedd gan y cartref ormod o fwyd anifeiliaid anwes a roddwyd. Dosbarthodd tîm y Gwesty Achub fwy na £200 o fwyd ci i Ganolfan Huggard y ddinas i helpu i fwydo cŵn y mae eu perchnogion yn ddigartref.

Mae helpu i ddod o hyd i berchnogion newydd ar gyfer cŵn yn y cartref yn rhywbeth y mae'r elusen eisoes yn hynod lwyddiannus yn ei wneud. Alex Milakovic, sydd wedi gwirfoddoli yn y Cartref Cŵn am y pum mlynedd diwethaf, sy'n rhedeg cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr elusen, sy'n rhannu lluniau o'r holl gŵn sydd ar gael ar gyfer eu hailgartrefu.

Meddai Alex, "Mae gennym bron i 10,000 o ddilynwyr ac mae’r nifer yn parhau i dyfu. Mae faint o gefnogaeth gadarnhaol rydym wedi’i chael gan y cyhoedd yn anhygoel. Felly, o rywun nad yw'n frwd iawn dros gyfryngau cymdeithasol, rwy'n credu ein bod wedi gwneud yn eithaf da! Roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth cadarnhaol gyda fy swyddi, a dangos i bobl bod modd defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd dda. Dyma lle y daeth y cysyniad o ysgrifennu, fel petai'r ci yn siarad, i'w le. Fel hyn, gallwch wir gyfleu i'r darllenwyr y cymeriad y tu ôl i'r ci, mae'n ei ddangos mewn golau gwahanol a gall pobl wir ddod i adnabod gwir gymeriad y ci.

Dywedodd Mathew Erman, un o ymddiriedolwyr yr elusen:  "Ar ôl misoedd o waith caled a chynllunio gan y tîm cyfan, mae'n bleser gennym o'r diwedd gael statws elusen ac rydym yn hynod gyffrous i weld beth yw dyfodol y Gwesty Achub. Gyda chefnogaeth y gymuned, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r staff gwych a’r cŵn anhygoel yng Nghartref Cŵn Caerdydd. "

I wneud rhodd i Gartref Cŵn Caerdydd, Y Gwesty Achub, ewch i:
www.therescuehotel.com/makeadonation

Dilynwch nhw ar y cyfryngau cymdeithasol @therescuehotelcdh (Instagram a Facebook) neu @therescuehotel (Twitter)

Rhif elusen cofrestredig: 1189079

**Y niferoedd: Ymateb Cyngor Caerdydd i argyfwng COVID-19**


Gyda'n Gilydd dros Gaerdydd
#GweithioDrosGaerdydd
#GweithioIChi
Y niferoedd: Ymateb Cyngor Caerdydd i argyfwng COVID-19
12,000
AWR O OFAL PLANT BOB WYTHNOS YN EIN CANOLFANNAU YSGOL
CYSYLLTWYD Â
700
O BOBL BOB DYDD AR Y RHESTR GYSGODI
1,100
O WIRFODDOLWYR WEDI COFRESTRU AR GYDA'N GILYDD DROS GAERDYDD
2,000
O BARSELI BWYD WEDI EU DOSBARTHU
£85,000
WEDI EI ADDO I'N HAPÊL FWYD CAERDYDD
£48M
WEDI'I DDOSBARTHU MEWN GRANTIAU BUSNES
4.6k
O ALWADAU I LINELL GYNGHORI'R CYNGOR (029 2087 1071)
1,500,000
O EIRIAU WEDI EU CYFIEITHU I'R GYMRAEG
700
GYFATHREBIADAU RHAGWEITHIOL WEDI'U HANFON
COVID-19
126K
O YMWELIADAU Â THUDALEN GWE COVID-19
4,000
O ATEBION WEDI'U HANFON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
8,000
TUNNELL O WASTRAFF WEDI'I GASGLU MEWN WYTHNOS
31K
O ORIAU GOFAL CARTREF WEDI'U DARPARU BOB WYTHNOS
3,500
O GEISIADAU GRANT BUSNES WEDI EU PROSESU
Casglwyd y ffigurau ar 16 Ebrill 2020
UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD